Llongau, Sielau a Siopau

Roedd Rhuddlan yn ffodus o gael nifer o grefftwyr a busnesau a dyma rhai a restrwyd yng Nghyfeiriadur Masnach Bennet yn 1913:
Mr J Barlow, Crydd yn Y Stryd Fawr
Mri Barnett, Groseriaid a Gwerthwyr Ffrwythau, Victoria Buildings, Ffordd Y Rhyl
Mr H Barnett, Adeiladwr
Mr J Blinston, Cyflenwr Cig, Stryd Fawr
Mr F Cookson, Gwaith Beiciau Rhuddlan, Stryd Fawr
Corbett Williams a'i Feibion, Peirianwyr Amaethyddol, Ffordd yr Orsaf
M J Davies, Groser, Tower House, Stryd y Castell
Thomas Davies, Deliwr Esgidiau, Gwneuthurwr ac Atgyweiriwr, Stryd Fawr
W Davies, Cigydd, Stryd Fawr (lladd-dŷ yn y cefn)
W H Davies, Groser a Chyflenwr defnyddiau
Y Brodyr Edwards, Adeiladwyr
W Edwards, Cyflenwr Cig
T Ellis, Gwneuthurwr Cyfrwy, Stryd y Senedd
Mrs Evans, Swyddfa'r Post
R A Griffiths, Groser,Yr Hen Bost, Stryd Fawr
T C Howatson, Milfeddyg
E Humphreys, Gof
John Johnson, Lladdwr Ceffylau (cafodd ei drwydded ei wahardd dros dro yn 1913 oherwydd iddo fethu gwneud gwelliant a orchmynnwyd iddo yn ystod arolwg blaenorol)
W Jones, Gwerthwr Ffrwythau, Stryd Fawr
Jones & Downes, Gofaint
Jones & Roberts, Marchnatwyr Darpariaeth, Stryd y Senedd
D A Kelly, Gwerthwr deunydd ysgrifennu a thybaco, Stryd Fawr
Morgan's, Pobydd a Chyffeithiwr, Stryd Fawr
E Morris, Cyffeithiwr, Stryd Fawr
Banc National & Provincial, Stryd Fawr
J Roberts, Groser Teulu, Stryd Fawr
J Roberts, Contractwr
W Roberts, Gwerthwr Glo
Miss Williams, Gwerthwr Papur Newydd a llyfrgell fenthyca fach, Stryd Fawr
Richard Williams, Saer Olwynion, Election Row (Prince's Road)

Mae'r busnes groser teuluol J Roberts a'i Feibion o Central Stores, Stryd Fawr a sefydlwyd gan John ac Ellen Roberts yn 1887 o ddiddordeb arbennig oherwydd iddynt wasanaethu'r preswylwyr yn dda trwy ddisgynyddion teulu nes iddynt gau o'r diwedd yn 1981. Ellen oedd yn rhedeg y siop groser a ffrwythau tra gweithiodd John hefo llechi ac fel plastrwr a'i waith yn cynnwys rhoi llechi ar yr "eglwys farmor" ym Modelwyddan. Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf rhedodd eu meibion Ernest ac Edgar y siop ac fe sefydlodd eu chwaer Evelyn siop drws nesa a oedd yn gwerthu manion gwnïo a hetiau.

Chwith: Injan Baker a gynhyrchwyd yn Ffowndri Rhuddlan - De: Beic dosbarthu Davies y Cigydd

Ym mis Medi 1914, cyflwynwyd Diploma i Mr W J Roberts (marchnatwr glo, Stryd yr Eglwys) gan yr RSPCA am y gofal arbennig a'r caredigrwydd a ddangosodd i'w ferlyn, Tommy, yn ystod y 22 mlynedd a weithiodd iddo. Cafodd ferlyn arall fel rhodd gan Mrs Aitken o Gastell Bodelwyddan.

Ychydig a wyddai mai masnach sefydlog yn Rhuddlan oedd adeiladu llongau gyda llongau eithaf mawr fel slwpiau a sgwneri yn cael eu lansio o'r lanfa sydd hyd heddiw a'i weddillion yn bresennol ger Eglwys y Santes Fair. Fodd bynnag, roedd adeiladu Pont y Foryd yn Rhyl a'r afon yn siltio yn y 1880au yn atal treigl y llongau mawr i lawr i'r aber ac felly daeth cynhyrchu llongau i ben. Daeth un llong o Ruddlan, sef William George (151 tunnell) a adeiladwyd yn wreiddiol yn 1876 fel sgwner tri mast, i ben yn ddramatig yn ystod Y Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth gludo glo o Abertawe i St. Valery-en-Caux cafodd ei stopio a'i suddo gan long danfor Almaeneg U26 ar Fedi 30ain, 1916, 10 milltir GGDd o Cap La Hague, yn ffodus heb niwed i unrhyw un. Fe suddwyd y llong danfor Almaeneg ei hun ym Mai 1917 ac fe gollwyd y capten a oedd yn gyfrifol am suddo 75 o longau.

Roedd Ffowndri Rhuddlan, neu'n fwy cywir Corbett Williams a'i Feibion, Peirianwyr Amaethyddol a oedd wedi ei sefydlu ar safle mawr wrth ymyl y lan orllewinol o'r afon, yn gyflogwr o bwys yn y dre. Chwaraeodd rôl arwyddocaol benodol yn ymdrech y rhyfel gan ei fod wedi troi i gynhyrchu arfau rhyfel. Mae'n cael ei ddisgrifio mewn adran arall yn y llyfr hwn.

Does dim amheuaeth bod y rhyfel wedi amharu ar fusnesau, gyda rhai yn dirywio oherwydd bod y dynion yn ymuno â'r fyddin a rhai yn fwy llewyrchus oherwydd galw cynyddol am eu nwyddau a chryn wario'r milwyr yng ngwersyll Cinmel. Gan fod yfed alcohol yn effeithio ar y cynhyrchiant a oedd yn angenrheidiol i ymdrech y rhyfel, roedd y bragdai a'r tai tafarnau yn dioddef oherwydd dyfrio'r cwrw, oriau agor yn gyfyngedig a ni chaniateir i unrhyw un brynu alcohol i rywun arall. Arwyddodd hyd yn oed y Brenin addewid i beidio â mwynhau alcohol nes bod y rhyfel ar ben. Fel roedd tanwydd yn mynd yn brin bu rhaid i rai busnesau leihau eu horiau agor ac yn 1916 fe benderfynwyd gau'r Swyddfa'r Post ar ddydd Iau am resymau economaidd, golau a thanwydd. Er bod rhai crefftau yn methu daeth rhai eraill yn eu lle ac yn 1922 datgelodd Cyfeiriadur Masnach Bennet enwau a chynyrchiadau newydd:

Mrs Britland, Cyffeithiwr
S E Gregory, Gwneuthurwr dŵr mwynol
R Hughes, Fferyllydd, Stryd y Castell
W Jolley, Groser, Stryd y Castell
Mrs Jones, Cyffeithiwr ac Ystafelloedd Te, Stryd Fawr
Banc y London, City and Midland
Cwmni Modur Rhuddlan
Mrs Roberts, Groser, Stryd y Castell
T H Roberts, Groser, Stryd Fawr
Miss E A Williams, Ystafelloedd Lluniaeth Rhydychen, Stryd Fawr
T Williams, Dyn Llaeth, Milk House Farm

Potel ddŵr mwynol Sidney E Gregory